

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adnewyddu democrataidd: Tystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol

Cefndir a Nodau

1



Y Fethodoleg

- Cwblhawyd tri chwiliad ar wahân o'r llenyddiaeth fel rhan o'r adroddiad hwn:
 - ❖ Chwiliad 1: diffinio sgôp adnewyddu democrataidd; dim cyfyngiad o ran dyddiad na daearyddiaeth o ystyried ei natur ddiffiniol; telerau chwilio caeth ac asesiad o gadernid
 - ❖ Chwiliad 2: canfod dulliau o annog ymgysylltu dinesig a democrataidd; ei gyfyngu i wledydd democrataidd ac ar ôl 2004; telerau chwilio caeth ac asesiad o gadernid
 - ❖ Chwiliad 3: deall dulliau o hyrwyddo troi allan i bleidleisio a'r cynlluniau i ymestyn y bleidlais yng Nghymru; dull 'caseg eira' o chwilio am eiriau a llenyddiaeth allweddol; meini prawf gwannach i brofi cadernid ond nodir fel cafeat yn yr adrannau perthnasol ac yn angenrheidiol oherwydd prinder ymchwil berthnasol



Adnewyddu Democrataidd

“

Cysyniad eang sy'n cynnwys dulliau o wella cynrychiolaeth drwy bleidleisio, dirprwyo pwerau o lywodraethau i gymunedau ac adnabod bod angen gwella'r arferion democrataidd presennol.

”



Nodau

- Goleuo'r broses o ddiwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol.
- Cyfuno a gwerthuso tystiolaeth yn ymwneud ag:
 - ❖ ymgysylltu dinesig a democrataidd;
 - ❖ cael mwy o bobl i bleidleisio (yn enwedig mewn etholiadau lleol); ac
 - ❖ ymestyn y bleidlais i bobl ifanc 16-17 oed a gwladolion tramor.

Ymgysylltu Dinesig a Democrataidd

2



Mae adnewyddu democrataidd yn cynnwys

Ymgysylltu Dinesig

Pan fydd dinasyddion yn cymryd rhan yn eu cymuned
a phwerau'n cael eu dirprwyo i'r gymuned.

&

Ymgysylltu Democrataidd

Yn ymwneud ag arferion gwleidyddol, cymdeithasol
a chymunedol. Gwella cynrychiolaeth.



Mae'r pethau canlynol yn dylanwadu ar ymgysylltu llwyddiannus...

- **Cyd-destun lleol:** mae'n haws adeiladu ar ymgysylltu mewn ardaloedd a nodweddir yn barod gan weithredu cryf a hanesyddol (e.e. ardaloedd diwydiannol gyda hanes o undebau llafur a gweithredu ar y cyd).
- **Arweinyddiaeth:** dangoswyd bod nodweddion cynhenid (e.e. arweinwyr carismatig), arweinyddiaeth barhaus a hyfforddiant mewn arweinyddiaeth ddinesig i gyd yn cynyddu ymgysylltu dinesig.
- **Agweddau gweinyddwyr cyhoeddus:** ymddiried mewn dinasyddion er mwyn gallu ysgogi gwybodaeth leol.
- **Perchnogaeth:** lle mae'r bobl yn berchen ar beth neu'r cyfan o gynllun neu brosiect.
- **Maint y newid:** cyfyngu cyfranogiad dinesig i brosiectau llai neu ardaloedd bach, lle gellir diffinio'r berthynas rhwng y gymuned a gwasanaethau cyhoeddus yn gliriach.



Mae dulliau o ysgogi ymgysylltu'n cynnwys...

- **Theori procio:** yn cynnwys defnyddio addewidion (e.e. gwneud ymrwymiad cyhoeddus i weithredu dinesig neu i bleidleisio), neu ail-fframio penderfyniadau i ddefnyddio normau cymdeithasol (e.e. rhoi manylion am faint o bobl sydd wedi llofnodi fel bod eraill yn fwy tebygol o lofnodi).
- **Dylunio cynhwysol:** lle gwrandewir ar leisiau dinasyddion a rhoddir tystiolaeth iddynt bod pobl wedi gwrande arnynt.
- **Defnyddio technoleg:** er enghraifft defnyddio deisebau ar-lein, polau piniwn ymgynghorol neu gyfryngau cymdeithasol fel dulliau o gyfathrebu rhyngweithiol.

Troi Allan i Bleidleisio

3

Mae adnewyddu
democratiadd yn cynnwys
gwella cynrychiolaeth drwy
bleidleisio. Un ffordd o
wneud hyn yw drwy

**droi allan i
bleidleisio**





Mae ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol yn dylanwadu ar bobl yn pleidleisio:

- **Oed:** mae cofrestru a throi allan i bleidleisio ar ei isaf ymhlith pobl ifanc, er bod oedrannau iau'n cyfranogi mwy mewn mathau eraill o ymddygiad dinesig, fel gwirfoddoli.
- **Addysg:** mae pobl sydd wedi eu haddysgu i lefel gradd yn fwy tebygol o bleidleisio na rhai heb radd.
- **Tarddiad ethnig:** yn y DU, mae pobl BME yn llai tebygol o fod wedi cofrestru i bleidleisio na'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae'r nifer sy'n troi allan i bleidleisio hefyd yn is ymhlith y rhan fwyaf o grwpiau BME o'i gymharu â'r boblogaeth ar gyfartaledd, ac yn enwedig ymhlith pobl BME ifanc.



Nodir tair thema yn y llenyddiaeth ar droi allan i bleidleisio:


- **Argraff o bwysigrwydd a dealltwriaeth o etholiadau lleol:** awgryma'r dystiolaeth fod pobl gydag ymdeimlad cryf o ddyletswydd ddinesig yn fwy tebygol o bleidleisio.
- **Dylanwadau cynhenid:** gallai diffyg amrywiaeth ymhlith cynrychiolwyr etholedig gael effaith negyddol ar argraffiadau pleidleiswyr o ddylanwad.
- **Dylanwadau anghynhenid:** gall ymddygiad pobl eraill hefyd, fel aelodau eraill o'r aelwyd, neu pan atgoffir pobl o'u dyletswydd ddinesig, effeithio ar ymddygiad pleidleisio.

Ymestyn y Bleidlais

4



Mae ymgynghori wedi trafod
ymestyn y bleidlais i dri grŵp...





Yn y llenyddiaeth, mae pedair
thema'n codi ar roi'r bleidlais i bobl
ifanc 16-17 oed:

- **'Mae'n gwneud synnwyr'**: Y farn eu bod yn cyfrannu at gymdeithas a dylai fod ganddynt lais felly mewn sut y mae'r wlad yn cael ei rhedeg.
- **'Ddim yn barod'**: Y farn nad oes gan bobl iau'r profiad, yr addysg na'r aeddfedrwydd i wneud penderfyniadau pleidleisio gwybodus - nid yw'r dystiolaeth o reidrwydd yn cefnogi hyn.
- **'Dim diddordeb'**: Mae nifer y rhai 18-24 oed sy'n troi allan i bleidleisio'n isel felly byddai rhywun yn disgwyl yr un peth gyda rhai 16-17 oed - ond mae'r dystiolaeth yn gymysg ac nid o reidrwydd yn cefnogi hyn.
- **'Bydd mwy'n troi allan i bleidleisio yn y tymor hir'**: Er y dystiolaeth brin, ystyrir bod profiadau cynnar o bleidleisio'n creu arfer ac felly'n arwain at droi allan i bleidleisio gydol oes.



Mae tystiolaeth anghyson yn y llenyddiaeth ar wladolion tramor yn pleidleisio:

- **Mae llai o wladolion tramor yn troi allan i bleidleisio mewn etholiadau** ond mae hyn, o leiaf yn rhannol, oherwydd eu bod yn iau a gyda chyrhaeddiad addysgol is na'r boblogaeth yn gyffredinol.
- **Mae ffactorau penodol sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o bleidleisio**, fel eu hargraffiadau o faint o fudd sydd ganddynt yn y gymuned.

Sylwadau i Gloi

5



Nodir tair factor allweddol ar draws y llenyddiaeth:

Mae'r
ymgysylltu'n
anwastad

Gallai
addysg
helpu

Mae argraff
pobl o'u
dylanwad
yn darogan
ymgysylltu



Gallai fod angen mwy o ymchwil mewn rhai meysydd:

Ailadrodd mewn cyd-destun

Defnyddio pobl
ifanc 16-17 oed
nid 18-24 oed;
ymchwil yng
Nghymru;
ymchwil ar lefel
llywodraeth leol
yn hytrach na
chenedlaethol.

Samplau cynrychiadol

Casglu barn y
boblogaeth
ehangach yn
hytrach na thrwy
ymgyngori, sy'n
hunan-ddewisol.

Troi diddordeb dinesig yn ymgysylltu democrataidd

Deall sut y gallwn
harneisio a throï
ymgysylltu
dinesig yn
ymgysylltu
democrataidd.